# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023
Dros Zoom

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Annie | Campbell | AC | Llywodraeth Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Rachel | Clegg | RC | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Janine | Edwards | JE | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Stephanie | Harries | SH | Llywodraeth Cymru |
| Mari | Hopkins | MH | Cyngor Sir Ceredigion |
| Eleri | James | EJ | Comisiynydd y Gymraeg |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Luned | Jones | LJ | Llywodraeth Cymru |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Steve | King | SK | Dinas a Chyngor Abertawe |
| Steve | King | Ski | Chwaraeon Cymru |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Glyn | Wells | GW | Llywodraeth Cymru |
| Alwyn | Williams | AW | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Andy | Wilson | AnW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Sian-Elin | Wyatt | SW | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Orlaith | Fraser | OF | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| James | Harris | JH | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Stephanie | Howarth | SH (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Sue | Leak | SL | Llywodraeth Cymru |
| John | Morris | JM | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |

## Cofnodwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ciaran | Lewis | CL | Llywodraeth Cymru |
| Michelle | Turner | MT | Llywodraeth Cymru |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Gwyneth | Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Shaun | Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Vicki | Doyle | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Karen | Hawkes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Leanne | John | Cyngor Abertawe |
| Nathan | Lester | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Steven | Marshall | Llywodraeth Cymru |
| Eifion | Rees | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helena | Snuggs | Chwaraeon Cymru |
| Caitlin | Theodorou | Cyngor Sir Ceredigion |
| Neil | Townsend | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Iwan | Wyn Jones | Cyngor Gwynedd |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau –** Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Croesawodd SH bawb. Cyflwynodd Sian-Elin Wyatt fel y swyddog cyswllt datganoledig newydd ar gyfer Cymru yn nhîm lleol y SYG.<br><br>Cyrhaeddwyd y cwota ar gyfer cyfieithu ar y pryd a darparwyd y gwasanaeth. | |
| **2** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf, diweddariad ar bwyntiau gweithredu, diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru, diweddariad ar ddemograffeg a diweddariad Data Cymru –** Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru | |
| | Nodyn o'r cyfarfod diwethaf:<br>- Ni chodwyd unrhyw sylwadau ar nodiadau'r cyfarfod diwethaf.<br><br>Diweddariad ar y pwyntiau gweithredu:<br>- Trafodwyd y cynnydd a wnaed ar y pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.<br>- Roedd tri o'r pump wedi'u cyflawni'n llawn.<br><br>Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru: | |

| | | |
|---|---|---|
| | Tynnodd SH sylw at nifer o adrannau o'r diweddariad o ran:<br>- Adroddiad blynyddol Llesiant Cymru, a'r is-adroddiad ar ethnigrwydd<br>- Canfyddiadau diweddar ar y Farchnad Lafur, gan nodi bod blog wedi'i gyhoeddi ym mis Medi ynghylch dadansoddi ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer Cymru<br>- Ystadegau ysgolion, gan nodi'r data diweddar a gyhoeddwyd ar absenoldebau mewn ysgolion uwchradd y gellid eu cymharu â lefelau cyn y pandemig<br>- Cyhoeddwyd canlyniadau cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol o 2022-23 ym mis Gorffennaf.<br><br>Diweddariad demograffeg Ystadegau Cymru:<br>Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2020 wedi'u gohirio gan y SYG tan ddiwedd mis Tachwedd.<br>- Cyhoeddodd y SYG gynlluniau ar gyfer Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol.<br>- Trafodwyd effaith yr oedi cyn cyhoeddi amcangyfrifon o'r boblogaeth a'r amserlen ar gyfer amcanestyniadau, gan gynnwys yr effaith ar asesiadau llesiant lleol a'r setliad llywodraeth leol. Dylid rhoi cyngor ar sut i ddefnyddio a dehongli amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018.<br><br>Diweddariad Data Cymru:<br>cyflwynodd SS ddiweddariad gan Data Cymru:<br>- Bro Morgannwg. Arolwg boddhad – lluniwyd partneriaeth i greu arolwg ar draws cynghorau yng Nghymru.<br>- Canllawiau hyfforddiant – mae pedwar canllaw bellach ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.<br>- Mae hysbysfwrdd o broffiliau ardaloedd lleol ar gael bellach. Mae cynlluniau i barhau i ddatblygu hyn felly byddem yn ddiolchgar os gallwch roi adborth.<br>- Ymysg y cyrsiau hyfforddi newydd mae: Data 101, a Deall a Defnyddio Data Perfformiad. | |
| **3** | **Ymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth** – Stephanie Howarth, Sue Leake a Martin Parry, Llywodraeth Cymru | |
| | Rhoddodd MP wybodaeth am ymgynghoriad y SYG ar yr ystadegau ar ddyfodol y boblogaeth a mudo, gan nodi'r pwyntiau allweddol canlynol:<br>- Mae'r ymgynghoriad yn cau mewn pythefnos – 26 Hydref 2023.<br>- Mae wedi'i anelu at bob defnyddiwr, sector gwirfoddol, academia ac ati.<br>- Y nod yw rhoi data gweinyddol wrth wraidd ystadegau poblogaeth.<br>- Defnyddir yr ymatebion i lywio argymhelliad Awdurdod Ystadegau'r DU ar ddulliau yn y dyfodol. Bydd gweinidogion yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymateb i'r argymhelliad.<br>- Er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall yr ymgynghoriad a'i gwblhau, bydd y SYG yn cynnal dau weminar arall ym mis Hydref. | Gofynnwyd i'r aelodau roi adborth lle y bo'n berthnasol ar ymateb arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ac i rannu ymateb eu sefydliad os byddant yn fodlon gwneud hynny. |

<table>
<tr><td></td><td>- Rhoddodd MP grynodeb o nodweddion allweddol ymateb arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad.<br><br>Trafodaeth<br>Gwahoddwyd yr aelodau i roi eu safbwyntiau ar y cynigion, ar ymateb arfaethedig Llywodraeth Cymru ac ar ymatebion eu sefydliadau eu hunain i'r ymgynghoriad.<br><br>Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys;<br>- Colli data ardaloedd bach: Gall y dulliau newydd arwain at golli data manwl gan y Cyfrifiad, gan ei gwneud hi'n anoddach modelu data ar lefelau daearyddol bach a nodi poblogaethau bach iawn.<br>- Nodweddion manwl a natur amlamryweb y Cyfrifiad: pryder y gellir peryglu'r gallu i gasglu data am yr un bobl ar yr un pryd ledled yr holl wlad. Defnyddir hyn ar gyfer asesiadau effaith.<br>- Dibyniaeth ar ddata gweinyddol: Mae pryder y bydd y dulliau newydd yn blaenoriaethu data presennol yn hytrach na chasglu'r wybodaeth benodol sydd ei hangen. Ni fydd gan y SYG yr un graddau o ddylanwad dros ansawdd a safonau'r data o gymharu â data a gesglir yn uniongyrchol.<br>- Pwysigrwydd a chymhlethdod diogelu data.</td><td></td></tr>
<tr><td>4</td><td>Yr arolwg o'r llafurlu wedi'i drawsnewid – James Harris, y Swyddfa Ystadegau Gwladol</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Cyflwynodd JH ac OF y sleidiau ar gyfer trawsnewid yr Arolwg o'r Llafurlu yn y DU a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth drwy 2023; mae sleidiau ar gael ar-lein.<br>Mae'r cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:<br>- Trafodwyd pynciau a gwmpesir gan yr arolwg.<br>- Amlinellwyd amcanion y trawsnewid.<br>- Trafodwyd ailddatblygu'r holiadur.<br>- Trafodwyd rhoi cynllun ymaddasol o'r arolwg ar waith.<br>- Rhoddwyd y cynnydd a wnaed drwy 2023 o ran ymatebion a gafwyd, datblygu perfformiad a'r amserlen ar gyfer trawsnewid.<br>- Rhoddwyd newidiadau disgwyliedig ar gyfer gweddill 2023.<br>- Trafodwyd y pynciau canlynol hefyd: datblygu gwaith dadansoddi, gwerthuso, adolygu a'r hyn y gall defnyddwyr y data ddisgwyl ei gael, yn ystod ac ar ôl y trawsnewid.<br>- Amlinellwyd ymgysylltiad parhaus yn y misoedd sydd i ddod.<br>- Gellir anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau, gan gynnwys anghenion penodol o ran data, dros e-bost: Labour.Market.Transformation@ons.gov.uk<br><br>Trafodaeth<br>Gofynnodd SS am grynodeb ar y ffactorau ysgogi ar gyfer y trawsnewid, a dywedodd OF mai'r prif ffactor ysgogi yw ei wneud yn fwy cynaliadwy, drwy fynd ar-lein, er mwyn sicrhau ei fod yn haws ei lenwi, ac yn denu sampl mwy o faint. Dylai hyn gyflwyno data mwy hyblyg ac ymatebol, o ansawdd gwell.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd SH am gyngor ar gyfer cydweithwyr sy'n defnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu yn y cyfamser, o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau ymateb a'r cynnydd yn ansefydlogrwydd y data. Dywedodd OF y caiff yr Arolwg o'r Llafurlu ei gyhoeddi o hyd, nes i'r broses drawsnewid gael ei chwblhau, a rhoddir nodiadau ansawdd gyda'r data, gyda'r nod y dylai'r broses drawsnewid fynd i'r afael â'r materion o ran ansawdd.<br><br>Gofynnodd MP am y goblygiadau i ddefnyddwyr yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y tu allan i ystadegau'r llafurlu, am fod y datganiadau chwarterol ar yr iaith Gymraeg yn defnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Cadarnhaodd OF y bydd yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid yn disodli'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu. | |
| **5** | **Cynlluniau presennol ac yn y dyfodol ar MALIC** – Nia Jones, Llywodraeth Cymru | |
| | Rhoddodd NJ ddiweddariad ar gynlluniau presennol ac yn y dyfodol ar MALIC. Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Rhoddwyd y dolenni canlynol i adnoddau perthnasol:<br>- MALIC 2019: rhestr o allbynnau<br>- Diweddariad ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Blog Digidol a Data)<br>- Prosiectau Gwyddor Data: nodi a disgrifio clystyrau o amddifadedd (Blog Digidol a Data)<br><br>**Trafodaeth**<br>Nododd JE fod ardaloedd daearyddol y clystyrau gofal sylfaenol wedi'u hadolygu ac y gofynnwyd am eglurhad o ran p'un a oedd y gwaith a oedd yn defnyddio'r rhain wedi'i gwblhau cyn y broses adolygu. Cadarnhaodd NJ fod hynny'n wir. Awgrymodd SH gamau i adolygu allbynnau'r MALIC y byddai'r broses o adolygu ardaloedd daearyddol y clystyrau gofal sylfaenol yn effeithio arnynt. | Gwaith adolygu y mae'r broses o adolygu ardaloedd daearyddol y clystyrau gofal sylfaenol yn effeithio arno. |
| **6** | **Diweddariad ardaloedd daearyddol ystadegol** – John Morris, Llywodraeth Cymru | |
| | Rhoddodd JM ddiweddariad ar ardaloedd daearyddol ystadegol a chreu enwau ar gyfer y gyfres newydd o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (ACEHIau).<br><br>Dechreuodd JM drwy drafod cynlluniau i ddiweddaru'r lefelau tiriogaethol rhyngwladol (ITL) yn 2024:<br>- Mae'r adeg i gynnal yr adolygiad o ITLau yn nesáu felly mae cynlluniau i sicrhau eu bod yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr.<br>- Rhoddwyd crynodeb o ardaloedd daearyddol yr ITLau presennol a'r trothwyon poblogaeth sy'n ofynnol.<br>- Amlinellwyd cynnig ar gyfer ardaloedd ITL2 newydd a fyddai'n cyd-fynd yn agosach â rhanbarthau economaidd Cymru. Gan nad yw Canolbarth Cymru yn cyrraedd y | Bydd JM yn dosbarthu'r daenlen â methodoleg enwi AGEHI i awdurdodau lleol ac aelodau perthnasol eraill. Bydd yr aelodau'n rhoi adborth. |

| | | |
|---|---|---|
| | trothwyon poblogaeth ar gyfer ITL2, awgrymir y dylid ei huno â De-orllewin Cymru.<br>- Ar gyfer diweddariadau ITL3, cyflwynwyd opsiynau o ran sut i ystyried Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Gallai'r opsiynau gynnwys eu rhannu ar lefel awdurdod lleol neu ar hyd ffiniau byrddau iechyd.<br><br>**Trafodaeth**<br>Gofynnodd GM sut y byddai Powys yn newid am fod ei phoblogaeth islaw'r trothwy o 150k ar gyfer ITL3. Atebodd JM, os yw eisoes yn bodoli fel ardal ITL yna gellid ei gadael fel y mae.<br><br>Gofynnodd JE ar gyfer beth y defnyddir yr ardaloedd daearyddol. Ymatebodd JM y gallai'r buddiannau a'r newidiadau fod yn fwy gweledol gydag ystadegau penodol. Defnyddir rhanbarthau ITL mewn ystadegau economaidd, er enghraifft.<br><br>Soniodd SK am faterion sy'n effeithio ar Abertawe, lle mae Abertawe'n cyd-fynd â Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer iechyd, ond o ran datblygu economaidd, mae hefyd yn ymuno â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Ychwanegodd JE y gellid ystyried ardaloedd Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus hefyd fel ardaloedd daearyddol amgen.<br><br>Yna symudodd JM ymlaen i gyflwyno'r diwygiadau i'r fethodoleg enwi ar gyfer ACEHIau, a oedd wedi'i diweddaru ers y cyfarfod diwethaf yn dilyn anawsterau wrth gymhwyso'r dull a gyflwynwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru lle y trafodwyd hyn:<br>- Defnyddiwyd DataMapWales i ddangos sut mae'r fethodoleg enwi'n gweithio drwy ddefnyddio wardiau etholiadol presennol.<br>- Lle mae ffiniau AGEHI o fewn ffiniau wardiau etholiadol, byddant yn defnyddio enw'r cyntaf, ond pan fydd AGEHI wedi'i rhannu rhwng wardiau etholiadol, byddant yn defnyddio'r ddau enw. Lle mae gan AGEHI sawl ward etholiadol o fewn ei ffiniau, caiff eu henwau eu hychwanegu at ei gilydd. Gall hyn arwain at enwau AGEHI hir, ac efallai na fydd hyn yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr data. Yn yr amgylchiadau hyn yn benodol, byddai'n fuddiol cael barn leol am yr enw gorau.<br>- Bydd JM yn darparu'r taenlenni a ddefnyddiwyd ganddynt er mwyn cael adborth ar y confensiynau enwi.<br>- Nododd JM hefyd, pan benderfynir ar enwau, y cânt eu cyflwyno i'r gwasanaeth cyfieithu yn Llywodraeth Cymru, ac y byddem yn ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg cyn eu mabwysiadu'n ffurfiol.<br><br>**Trafodaeth**<br>Nododd JE, os oes mwy na thair ward yna bydd yr enw'n rhy hir. Cadarnhaodd JM ei fod yn gofyn am fewnbwn ar y fethodoleg enwi ar gyfer enwau AGEHI hir. Dywedodd SH y bydd angen mewnbwn lleol ar gyfer ardaloedd mwy cymhleth neu lle bu llawer o newid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd NV a oes angen enwau Cymraeg a Saesneg ar gyfer ACEHIau lle mai dim ond enw Cymraeg a geir. Awgrymodd JM y byddai'r broses yr un fath ag ar gyfer enwi wardiau etholiadol, lle mae'r enw Saesneg yr un fath â'r enw Cymraeg.<br><br>Gofynnodd GM a allai awdurdodau lleol ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, ac ymatebodd SH fod croeso i awdurdodau lleol wneud hyn os byddent yn dymuno.<br><br>Trafodwyd gwaith y clystyrau gofal sylfaenol hefyd gan fod y gwaith o ddatblygu'r AGEHI i glystyrau yn cael ei arwain gan dîm JM. | |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | SW: mae tîm lleol y SYG yn cynnal gweminarau amrywiol a all fod o ddiddordeb i'r aelodau. Mae tudalen Eventbrite tîm lleol y SYG yn sicrhau mynediad i bob recordiad blaenorol.<br><br>Sicrhaodd AC fod yr aelodau'n ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo ar ddull o gyfrifo marwolaethau ychwanegol. | |

| | **Camau gweithredu** | **Aelod(au)** |
|---|---|---|
| 1 | Gofynnwyd i'r aelodau roi adborth lle y bo'n berthnasol ar ymateb arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ac i rannu ymateb eu sefydliad os byddant yn fodlon gwneud hynny. | Pawb |
| 2 | Cynhelir adolygiad o allbynnau MALIC sy'n cwmpasu clystyrau gofal sylfaenol o ystyried y diwygiadau a wnaed i ardaloedd daearyddol y clystyrau gofal sylfaenol. | Craig Thomas / Nia Jones |
| 3 | Bydd JM yn dosbarthu'r daenlen â methodoleg enwi AGEHI i awdurdodau lleol ac aelodau perthnasol eraill. Bydd yr aelodau'n rhoi adborth. | John Morris |